**SEWR-03-99 (min)**

**PWYLLGOR RHANBARTHOL DE DDWYRAIN CYMRU**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener Hydref 1 1999 |
| **Amser:** | 9.30am i 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful |

**Presennol:**

*:Aelodau*

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones (Cadeirydd) | Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Jane Davidson | Pontypridd |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex | Gogledd Cerdydd |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |

| | |
|---|---|
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Phil Williams | Gorllewin De Cymru |

*Yn Bresennol*

| | |
|---|---|
| Chris Burns | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| John Sheppard | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| John Taylor | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| Karen Thomas | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| Brian Willott | Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru |
| Alan Lansdown | Pennaeth Adran Materion Ewropeaidd |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc |
| Ian Dawes | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau agoriadol**

0.1 Croesawodd y Cyngh Bernard Driscoll, y Dirprwy Faer, Bwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Diolchodd y Cadeirydd y Cyngh Driscoll a dywedodd pa mor falch yr oedd fod y Pwyllgor yn gallu cwrdd ym Merthyr Tudful.

0.2 Gofynnodd Peter Law i leoedd parcio ceir cadw gael eu neilltuo ar gyfer Aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rhanbarthol.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rosemary Butler, Alun Cairns, Christine Chapman, Jocelyn

Davies, Ron Davies, David Davies, William Graham, David Rhys Lloyd, Jonathan Morgan, Lynne Neagle ac Owen John Thomas.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf**
2.1 Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf.

**Eitem 3: Cyfeiriadau postio**
3.1 Eglurodd y Cadeirydd nad oedd neb o Swyddfa'r Post, yn anffodus, yn gallu mynychu'r cyfarfod. Fodd bynnag, byddent yn falch o fanteisio ar y cyfle i gwrdd â'r Pwyllgor, a gobeithiwyd y byddent yn gallu mynychu'r cyfarfod nesaf ar 3 Rhagfyr, gydag Aelod o Fwrdd Gweithredol Swyddfa'r Post y DU yn arwain eu cynrychiolaeth. Mynegodd y Cadeirydd na fyddai'r Bwrdd mewn sefyllfa i drafod penderfyniadau gweithredol a/neu fasnachol penodol, ond y byddent yn gallu egluro'r gweithdrefnau ymgynghori perthnasol wrth newid gwasanaethau i gymunedau lleol.

3.2 Nododd y Pwyllgor God Ymarfer Swyddfa'r Post ar 'Newid Cyfeiriadau a Chodau Post', fel y'u gosodir mewn taflen a ddosbarthwyd yn y cyfarfod. Gofynnodd aelodau a oedd fersiwn Cymraeg o'r daflen ar gael.

**Eitem 4: Strategaeth datblygu economaidd ar gyfer De Ddwyrain Cymru: SEWR-03-99 (p.1)**
4.1 Wrth gyflwyno'r eitem hon, dywedodd Brian Willott fod y Fforwm wedi cael ei sefydlu i gytuno ar strategaeth economaidd gyffredin ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru a fyddai'n adlewyrchu anghenion lleol a rhanbarthol. Drafft yn unig oedd y ddogfen strategaeth ac roedd y drafodaeth gyda'r Pwyllgor yn rhan o broses ymgynghori parhaus. Sefydlwyd chwe gweithgor i fynd â'r gwaith manwl yn ei flaen.

4.2 Pwysleisiodd y Fforwm rôl rhanbarth De Ddwyrain Cymru yn natblygiad economaidd Cymru gyfan. Yr argraff oedd fod De Ddwyrain Cymru yn derbyn mwy na digon o'i rhan o'r buddsoddiad, ond fe bwysleisiwyd fod hyn yn gamarweiniol ac yn niweidiol o bosibl i ddatblygiad economaidd y rhanbarth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd deall y berthynas rhwng datblygiad busnes cynhenid a mewnfuddsoddi.

4.3 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd pryder ynghylch cysylltiadau trafnidiaeth yn y rhanbarth, yn enwedig rhwng Caerdydd a'r Cymoedd ac i Faes Awyr Ryngwladol Caerdydd. Nododd yr aelodau bwysigrwydd cysylltiadau da o fewn datblygiad economaidd. Nodwyd cyflwr gwael trafnidiaeth gyhoeddus yn Ne Cymru, ac awgrymwyd y byddai adeiladu mwy o ffyrdd yn cynyddu tagfeydd ar y rhwydwaith presennol.
- Awgrymodd aelodau y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymchwil a datblygiad a rôl prifysgolion yn natblygiad economaidd De Ddwyrain Cymru. Roedd angen amlygu'r cyswllt rhwng y sector busnes a phrifysgolion a'r cyswllt rhwng dysgu gydol oes a thwf economaidd yn y ddogfen strategaeth derfynol.
- Roedd aelodau yn awyddus i leihau'r ddibyniaeth ar y diwydiant gweithgynhyrchu yn Ne Ddwyrain Cymru ac i ddatblygu sector gwasanaeth cryfach, yn benodol busnesau TG a'r Rhyngrwyd.
- Cafwyd peth trafodaeth am y berthynas rhwng mewnfuddsoddi a buddsoddi mewn busnesau cynhenid. Roedd yn anghywir i honni bod dyrannu adnoddau er mwyn denu mewnfuddsoddi yn andwyol i fusnesau cynhenid. I'r gwrthwyneb, eglurwyd bod mewnfuddsoddi nid yn unig yn creu cyflogaeth yn uniongyrchol ond hefyd yn cynhyrchu galw am gynnyrch a gwasanaethau gan fusnesau lleol, gan hybu gweithgaredd economaidd cartref a mentrau lleol.
- Nodwyd bod yr argraff eang o Dde Ddwyrain Cymru fel ardal ffyniannus yn gamarweiniol. Dim ond

rhannau penodol o’r rhanbarth oedd wedi profi twf economaidd sylweddol, ac roedd gan Gaerdydd hyd yn oed ardaloedd o dlodi. Roedd yr aelodau yn arbennig o bryderus ynghylch y Cymoedd, a oedd yn dioddef o rai o’r amgylchiadau economaidd gwaethaf yng Nghymru. Roedd teimlad fod y Cymoedd yn cael eu hystyried fel trefi cymudo ar gyfer Caerdydd a thramwyfa yr M4. Awgrymwyd y dylid creu Corfforaeth Ddatblygu ar gyfer y Cymoedd.

- Mynegwyd pryderon y byddai rhai cymunedau penodol, er enghraifft Casnewydd, yn dioddef o ganlyniad i fod y tu allan i’r ardal Amcan 1.
- Nododd sawl aelod mater eithrio cymdeithasol a’i gysylltiadau amlwg gyda’r agenda economaidd. Nodwyd y byddai’n rhaid i’r strategaeth gynyddu cyfraddau cyfranogi yn yr economi a sicrhau swyddi â gwerth uwch. Roedd yr aelodau yn awyddus i sicrhau bod cysondeb rhwng y targedau economaidd yn y strategaeth a’r targedau ar gyfer cynnwys pobl yn gymdeithasol a salwch. O ran hyfforddi, awgrymwyd bod angen dirfawr i ddatblygu sgiliau’r rheiny sydd heb sgiliau, yn ogystal â chynyddu sgiliau’r rheiny sydd eisoes mewn gwaith.
- Nodwyd bod y diwydiant manwerthu yn brif gyflogwr yn nifer o gymunedau’r Cymoedd, ac roedd pryder ynghylch a oedd manwerthu yn cael ei gynrychioli’n ddigonol ar y Fforwm ai peidio.
- Awgrymwyd y dylai'r strategaeth gyfeirio’n fwy helaeth at ddatblygiad cynaladwy.
- Nodwyd bod prinder mawr o dir i’w ddatblygu mewn rhannau o’r Cymoedd. Awgrymwyd bod angen mwy o fuddsoddiad mewn ailfeddiannu tir.

4.4 Diolchodd y Cadeirydd i’r Fforwm am eu cyflwyniad a dweud ei fod yn gobeithio y byddent yn ystyried y pwyntiau a godwyd wrth ddatblygu’r strategaeth economaidd ar gyfer y rhanbarth.

**Eitem 5: Gweithredu’r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd newydd SEWR-03-99 (p.2)**
5.1 Gan gyflwyno’r papur, eglurodd Alan Lansdown mai’r mater sylfaenol oedd sut i weithredu’r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd. Bu’r Tasglu yn ystyried y trefniadau ar gyfer sicrhau asesiad mwy strategol o anghenion yr ardal, yn ogystal â’r trefniadau trefniannol ar gyfer y corff fydd yn gweinyddu’r rhaglenni newydd.

5.2 Ynghylch y trefniadau ar gyfer gwneud asesiadau strategol, mynegwyd mai ymagwedd cyffredinol y Tasglu oedd argymell symud i fwrdd oddi wrth y trefniadau rywsut-rywsut presennol lle mae noddwyr yn ceisio am arian ar gyfer projectau didoledig. Yn hytrach na’r system bresennol o rowndiau bidio ar sail nifer fawr o geisiadau ar gyfer projectau unigol, byddai ymagwedd mwy strategol yn cynnwys strategaethau cenedlaethol a lleol. Byddai ymagwedd cyfranogol wedi’i seilio ar bartneriaethau, yn ymwneud ag awdurdodau lleol, a’r sectorau preifat a gwirfoddol, yn pwysleisio natur leol y strategaethau.

5.3 Dywedodd Alan Lansdown y byddai’r Tasglu yn debygol o argymell creu asiantaeth weithredol newydd, yn yr un modd â Cadw i weinyddu’r rhaglenni. Byddai’r asiantaeth wedi ei lleoli o fewn y Cynulliad Cenedlaethol a’i staffio gan swyddogion â statws Gweision Sifil. Byddai fodd bynnag yn endid ar wahân gyda chyfrifon ar wahân a bwrdd ymgynghorol a allai gynnwys amrywiaethau o ddiddordebau allanol. Byddai swyddogaethau’r asiantaeth yn cynnwys y rheiny yr ymgymerir â hwy ar hyn o bryd gan Bwyllgor Gweithredol Rhaglen Ewropeaidd Cymru.

5.4 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Wrth ddatblygu ymagwedd strategol ar lefelau cenedlaethol a lleol, roedd angen prif-lifo materion oedd yn berthnasol i’w gilydd megis cynnwys pobl yn gymdeithasol, cyfleoedd cyfartal a datblygiad

cynaladwy.

- Roedd pryder ynghylch y problemau penodol a wynebir gan gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Nodwyd yn y man hwn bod lle i ddefnyddio hwyluswyr i weithio gyda'r cymunedau wrth ddatblygu partneriaethau lleol.
- Teimlodd aelodau y gallai fod yn bosibl diogelu buddiannau'r sector gwirfoddol mewn partneriaethau lleol. Dywedodd Alan Lansdown y byddai'r trefniadau monitro yn ystyried y gynrychiolaeth o fewn y partneriaethau lleol.
- Roedd peth pryder ynghylch p'un a fyddai'r corff a fydd yn gweinyddu'r rhaglenni newydd yn ei le erbyn 1 Ebrill 2000 ai peidio. Nodwyd y gellid sefydlu asiantaeth weithredol trwy weithredu gweinyddol, ac y dylai fod yn weddol syml i baratoi dogfen fframwaith yn nodi'r canllawiau gweithredu ar gyfer y corff newydd. Yn ogystal, roedd aelod newydd o staff uwch newydd gael ei recriwtio yn benodol i fynd i'r afael â'r trefniadau gweithredu.
- Roedd yr aelodau yn awyddus i sicrhau na ddylai'r cymunedau y tu allan i ardal Amcan 1 gael eu hesgeuluso. Nodwyd bod y cynigion ar gyfer yr ardal Amcan 2 wedi cael eu hoedi, ond bod y rhain ar fin cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.
- Roedd yr aelodau yn awyddus i wneud y gorau o'r hyblygrwydd o safbwynt y trefniadau gweithredu a monitro ar gyfer y rhaglenni, fel y gellid cyflwyno unrhyw welliannau fyddai'n dod i'r amlwg yng ngoleuni profiad yn gyflym. Dywedodd Alan Lansdown fod y Comisiwn wedi cytuno ar arolwg ffurfiol canol-tymor ym 2003, ac y byddai'n bosibl mynd at y Comisiwn i ofyn am arolwg cynharach os yw'n angenrheidiol.

5.5 Diolchodd y Cadeirydd i Alan Lansdown am ei gyflwyniad a gofynnodd iddo ystyried barn y Pwyllgor am fwrw ymlaen â'r cynigion.

**Eitem 6: Dadansoddi'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol: SEWR-03-99 (p.3)**

6.1 Eglurodd Alan Lansdown fod y papur yn nodi dadansoddiad o grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd o dan y Ddogfen Rhaglen Unigol De Cymru Ddiwydiannol ar gyfer 1994-96 fesul ardal awdurdod lleol. Roedd dyrannu costau projectau i awdurdodau lleol unigol wedi cynnwys elfen o ddosbarthu pro rata. Yn ogystal, mynegodd fod tua £15, ar y cyfan yn ymwneud â phrojectau twristiaeth mawr, yn dal ar ôl ac i'w ddyrannu o dan y rhaglen.

6.2 Nododd y Pwyllgor y dadansoddiad a chododd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth :

- O safbwynt yr adnoddau a oedd heb eu clustnodi, nodwyd bod yna tua thri mis ar ôl er mwyn cyflawni'r gwariant o dan y rhaglen. Os rhoddwyd y gorau i unrhyw un o'r prif brojectau twristiaeth, roedd gan Bwyllgor Gweithredol Ewropeaidd Cymru restr wrth gefn o brojectau o safon.
- Eglurodd Alan Lansdown fod y patrwm o ddefnyddio grantiau ar y cyfan yn adlewyrchu ansawdd y ceisiadau unigol yn hytrach nac unrhyw fesurau gofodol. Byddai'r projectau wedi cael eu hasesu ar sail meini prawf a osodwyd gan y Pwyllgor Monitro.
- Byddai pob project yn cael ei werthuso yn erbyn y cyfleoedd cyflogi a oedd wedi cael eu creu.

6.3 Diolchodd y Cadeirydd i Alan Lansdown am ddarparu'r dadansoddiad y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor.

**Eitem 7: Sesiwn meic agored**

7.1 Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi cofrestru eu dymuniad i gyflwyno eu barn i'r

Pwyllgor i wneud hynny. Cafwyd cwestiynau am gyfyngiadau cyflymdra ar y ffyrdd ac am yr arian sydd ar gael ar gyfer awdurdodau lleol i greu swyddi yn eu hardaloedd. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gwahodd yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol i ateb y cwestiynau a godwyd.

**Eitem 8: Trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf**

8.1 Cytunwyd mai trafnidiaeth integredig fyddai thema y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener 3 Rhagfyr. Byddai'r agenda hefyd yn caniatáu amser ar gyfer trafodaeth ar gyfeiriadau post a sesiwn meic agored. Byddai'r lleoliad yn cael ei gadarnhau cyn gynted â phosibl.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Hydref 1999**